

# Llwybr Cylchol Efyrnwy



Ar llwybr Glyndŵr ger Dolanog

## Manylion y llwybr

Taith hamddenol i Bontrobert ar Lwybr Glyndŵr drwy dir coediog ar hyd afon Efyrnwy. Ewch yn ôl ar hyd Llwybr Ann Griffiths, sy'n fwy egnïol, ar ochr arall yr afon.

| | |
|---|---|
| **Pellter:** | 7 milltir/11.25 km |
| **Cyfeirnod Grid y Man Cychwyn:** | SJ 0659 1282 |
| **What3Words:** | inferior.hindering.pizzas |

## Cychwyn

O'r maes parcio rhad ac am ddim yn Nolanog, trowch i'r chwith a cherddwch tuag at ganol y pentref. Rydych bellach ar Lwybr Glyndŵr, a byddwch yn ei ddilyn i bentref hyfryd Pontrobert.


Ar y cyffordd, cerddwch yn syth ymlaen, gan fynd heibio Eglwys Sant Ioan ar y dde. Croeswch y bont garreg fechan wrth ymyl y bont ffordd, lle cewch eich cip cyntaf ar Afon Efyrnwy a fydd yn gydymaith i chi am ran helaeth o'ch taith. Ewch ymlaen ar ymyl chwith y ffordd am 650 metr i bwynt A.

Ar bwynt A, trowch i'r chwith drwy'r giât i gerddwyr a chroesi'r ddôl, gan ddilyn cyfeiriad y mynegbost, at giât arall i gerddwyr. Cerddwch ar y llwybr cul, creigiog trwy goetir gyda'r afon islaw i chi ar y chwith. Ewch yn eich blaen nes i chi gyrraedd dôl arall a cherddwch yn syth ar ei thraws, yn gyfochrog â'r afon.

Ewch i lawr tuag at yr afon ar y trac cerrig llydan ac yna ewch ymlaen ar y llwybr cul ar hyd Llwybr Glyndŵr am 1 cilometr trwy ddolydd a choedwigoedd nes i chi gyrraedd pwynt B. Os ydych yn digwydd bod yma ym mis Mehefin, mae'r dolydd blodau gwyllt yn arbennig o brydferth.

Ym mhwynt B, ewch trwy'r giât i gerddwyr a cherddwch i fyny'r trac. Pan welwch dŷ Gwern Fawr o'ch blaen, anwybyddwch y giât sy'n arwain i mewn i'r ardd ac ewch i'r chwith o amgylch yr ymyl. Chwiliwch am giât i gerddwyr gyda physt â phennau melyn pan fyddwch wedi pasio'r tŷ ac ewch drwyddi at y trac mynediad. Trowch i'r chwith a cherddwch ar hyd y trac am 2 gilometr nes i chi gyrraedd lôn a mynegbost ym mhwynt C.

# Llwybr Glyndŵr **TAITH BYR**
# **Llwybr Cylchol Efyrnwy**




Ym mhwynt C, trowch i'r chwith ar y lôn a cherddwch i lawr yr allt i gyrraedd cyffordd. Trowch i'r chwith eto a cherddwch i mewn i bentref Pontrobert a thros bont yr afon.

Yma byddwch yn gadael Llwybr Glyndwr i ymuno â Llwybr Ann Griffiths. Ewch yn syth ymlaen gan fynd heibio Tŷ'r Eglwys ar y chwith. Cerddwch i fyny'r lôn am 100 metr i gyffordd trionglog ym mhwynt D gyda mynegbost Ann Griffiths yn dangos y ffordd i chi. Trowch i'r chwith a cherddwch i fyny'n raddol ar y ffordd. Ar ôl i chi adael y pentref mae yna goed collddail yn bwrw cysgod braf dros y lôn. Gallwch glywed yr afon i'r chwith yn glir, a chyn bo hir byddwch yn gallu ei gweld hi eto.

Ar ôl 800 metr byddwch yn dod at gyffordd. Ewch i'r chwith yma fel y cyfarwyddir gan y mynegbost. Ar ôl 800 metr arall bydd yr afon yn diflannu eto am ychydig wrth i chi ddringo bryn serth. Ond i wneud iawn am hynny, fe fyddwch yn pasio glyn prydferth sy'n llawn coed ffawydd.

Yn union wrth i chi golli golwg ar y glyn, fe welwch fynegbost ym mhwynt E. Trowch i'r chwith yma ar hyd y trac cerrig. Anwybyddwch y troad i Waelod Hafod a pharhewch i'r chwith gan ddilyn sŵn yr afon. Rydych yn uchel iawn uwchben yr afon nawr a byddwch yn parhau felly ar y trac tonnog am 1.3 cilometr nes i chi gyrraedd giât cae pren.

Ewch drwy'r giât ac yn fuan byddwch yn dod at fforch yn y trac. Ewch i'r chwith a dechrau disgyn yn raddol i lawr i bont bren bron ar lefel yr afon. Ac yna byddwch yn esgyn eto! Ond buan mae graddiant y trac yn mynd yn haws. Ewch trwy giât cae metel a pharhau nes i chi gyrraedd mynegbost sy'n pwyntio i dri chyfeiriad. Yma byddwch yn gadael Llwybr Ann Griffiths ac yn ailymuno â Llwybr Glyndŵr. Ewch yn syth ymlaen a cherddwch yn hamddenol i lawr yr allt am y 500 metr olaf nes i chi gyrraedd eich man cychwyn.

**Parcio:** Maes parcio am ddim yn Nolanog.
**Bws:** Amherthnasol
**Trên:** Amherthnasol
**Gwybodaeth gyffredinol:** Toiledau cyhoeddus ym maes parcio Dolanog.

